

Gwybodaeth am Ddysgu Cyfunol

Annwyl Riant / Gwarchodwr

Rydym yn ysgrifennu atoch i amlinellu'r profiad dysgu yn ysgolion Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd wrth i ni barhau i ddelio â'r pandemig coronafeirws.

Teimlwn ei bod yn bwysig egluro'r hyn y mae ysgolion yn ei ddisgwyl a'r hyn y gallwch chi ei ddisgwyl fel rhiant pan fydd disgyblion yn treulio peth amser yn dysgu yn yr ysgol a pheth amser yn dysgu gartref.

Gobeithiwn y bydd hyn yn ein helpu ni i gyd i fod yn realistig ynghylch yr hyn y gallwn ei gyflawni, ac yn ein paratoi'n well os bydd rhagor o gyfyngiadau 'cyfnod atal' neu unrhyw drefniadau eraill yn cael eu rhoi ar waith a allai effeithio ar ein hysgolion yn y dyfodol.

1

Termau (geiriau) a dulliau dysgu newydd – rhai diffiniadau sylfaenol:

Tra bod yr ysgolion ar agor ac yn gweithredu'n ddiogel, rydym am annog **presenoldeb llawn yn yr ysgol**. Os yw eich plentyn yn iach, nid yw'n dangos unrhyw un o symptomau Covid-19 ac, nid yw gweithiwr meddygol proffesiynol wedi dweud wrtho am hunanynysu neu wedi dweud wrtho am aros gartref o'r ysgol oherwydd Profi, Orlhain, Diogelu, yna mae'r ysgol yn dal i ddarparu'r amgylchedd dysgu gorau ar gyfer pob dysgwr.


Dysgu Cyfunol – mae hwn yn derm sy'n disgrifio ystod eang o ddulliau addysgu - rhai digidol a rhai nad dynt yn ddigidol, rhai wyneb yn wyneb ag athro/athrawes yn yr ysgol, a rhai o bell fel gweithio gartref.

Egluro Jargon	Ble?	Enghreifftiau
Dysgu Cyfunol	Yn yr ysgol	- Wyneb yn wyneb ag athro/athrawes yn y dosbarth - Dysgu annibynnol (gweithio heb fewnbwn uniongyrchol gan yr athro/athrawes megis tasgau neu heriau sydd wedi'u gosod er mwyn i ddisgyblion arwain eu dysgu eu hunain a datrys problemau)
	Dysgu o bell (nid ar safle'r ysgol ac fel arfer gartref)	Dysgu cydamserol - dysgu ar-lein lle gall yr athro/athrawes a'r dysgwr ryngweithio â'i gilydd mewn amser real e.e. cyfarfodydd ffrydio byw. Yn aml, trefnir y cyfarfodydd hyn ymlaen llaw trwy MS Teams neu Google Meet.
		Dysgu anghydamserol - dysgu digidol nad yw mewn amser real (yn fyw) gyda'r athro/athrawes (e.e. ymchwilio ar y rhyngwyd, gwylio clip wedi'i recordio ymlaen llaw o'r athro ar-lein). Gellir gwneud y gweithgareddau hyn ar amser a bennir gan y dysgwr (ar gais) a thrwy adnoddau a ddarperir ar-lein trwy J2E, MS Teams, Google Classroom neu Hwbmail.
		Dysgu anghydamserol nad yw'n ddigidol e.e. gwaith ysgrifenedig fel ysgrifennu traethawd, cwblhau papur ysgrifenedig blaenorol, darllen llyfr fel gweryslyfr neu stori/nofel, gweithgareddau creadigol, fel: gwrandio ar gerddoriaeth, lluniadu/paentio, ymarfer rhan ar gyfer drama, gweithgareddau corfforol, fel cymryd rhan mewn dosbarth ymarfer corff, neu chwarae chwaraeon
	Dysgu cydweithredol	Disgyblion yn dysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd. Mae hyn yn digwydd bob dydd yn ein hysgolion, ond gall hefyd ddigwydd yn ddigidol o bell, fel pan fydd disgyblion yn rhannu syniadau ar-lein trwy Hwb gan gynnwys J2E, Office365 a Google G Suite.
Ystafell ddosbarth yn y cartref	Mae dysgwyr yn cael rhagolwg o wersi gartref ac yna'n datblygu sgiliau ac yn dysgu rhagor yn yr ysgol gyda chyfoedion ac athrawon.	

Wrth weithio gartref, bydd ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn trefnu bod disgyblion yn gallu cwblhau oriau rhesymol o weithgaredd sy'n seiliedig ar yr ystod eang o gyfleoedd dysgu cyfunol sydd ar gael iddynt. Gall cyfuniad o'r dulliau hyn fod yn fwy effeithiol wrth addysgu a hyrwyddo ymgysylltu mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol.

Mae hyn yn golygu **na fydd ysgolion yn disgwyl i ddisgyblion fod wrth y cyfrifiadur am oriau maith yn ystod y dydd**. Disgwyliwn i ddisgyblion **gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gymysgedd o weithgareddau digidol/nad ydynt yn ddigidol ac anghydamserol/cydamserol**. Felly, ni ddylai rhieni boeni, er enghraifft, am orfod gwyllo pum awr o ffrydio byw bob dydd. Disgwyliwr cydbwysedd iach o weithgareddau.

Crynodeb o weithgareddau dysgu cyfunol y gellir eu defnyddio mewn trefniadau gwahanol ac ar amseroedd gwahanol i weddu i'r cyfleoedd dysgu a ddymunir.



3

O ran yr amser y dylid ei dreulio ar waith ysgol gartref, mae'n anodd bod yn fanwl gywir ynghylch y mater hwn:

Mewn amseroedd arferol:

- Mae ysgolion ar agor i ddarparu 25 awr o wersi yr wythnos
- Gall myfyrwyr Safon Uwch wneud yn dda yn eu hastudiaethau os ydynt yn astudio pob pwnc am awr bob dydd ar gyfartaledd, ar ben eu hamser cyswllt â'u hathro/athrawes.
- Efallai y bydd myfyrwyr TGAU yn astudio am gwpl o oriau'r dydd, ar ben eu hamser cyswllt â'u hathro/athrawes.
- Gallai dysgwyr iau yn yr ysgol uwchradd gael ychydig ddarnau o waith cartref i'w gwneud bob nos yn rhesymol a fydd yn cymryd tua 20 munud yr un i'w cwblhau.
- Efallai y bydd disgyblion cynradd hŷn yn treulio peth amser ar ben eu hamser cyswllt â'u hathro/athrawes (e.e. prosiect blwyddyn 6 neu debyg).

O ran dysgu o bell (gweithio gartref):

- O dan yr amgylchiadau presennol, byddem yn **hyrwyddo dull hyblyg** lle gallai'r athro/athrawes ddarparu amrywiaeth o wersi fel yr amlinellwyd uchod, a byddai'n well gennym petai **ysgolion ac athrawon yn penderfynu faint o waith y gellir ei gwblhau'n rhesymol o'i gymharu ag wythnos waith arferol yn yr ysgol.**
- O ran dysgu o bell, gall gwersi ar-lein a gyflwynir gan athrawon amrywio o ran eu hyd. Efallai y bydd athrawon hefyd yn dewis dangos clip byrrach sydd wedi'i recordio ymlaen llaw i ysgogi trafodaeth ac yna bod wrth law ar-lein neu ar e-bost i ateb cwestiynau.
- Mae rhai ffynonellau addysgol¹ yn awgrymu y dylai'r amser a dreulir ar y cyfrifiadur **y tu hwnt i fewnbwn yr athro/athrawes** fod oddeutu 30% o'r diwrnod ysgol arferol (sef tua 90 munud).
- Wedyn bydd athrawon yn penderfynu ar amser priodol i ddisgyblion gwblhau tasgau penodol eraill sy'n gyson yn gyffredinol â'u hoedran, eu cyfnod a'u gallu gan gael eu harwain gan yr hyn sy'n ofynnol i sicrhau cynnydd da. Felly, ein greddf gyntaf fyddai eich **annog i ymddiried ym marn broffesiynol yr athro/athrawes.**

4

Gofynnwn ichi hefyd fel rhieni ystyried y canlynol:

- Ystyried yr heriau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithio gartref, fel annog eich plentyn i gymryd seibiant yn rheolaidd a chael lle tawel i weithio.
- Efallai bod gan bobl ifanc yn eu harddegau hŷn, yn enwedig, batrwm cysgu gwahanol i aelodau eraill yr aelwyd a'u bod yn dewis cwblhau gwaith ar adegau gwahanol, o gymharu â'r diwrnod gwaith arferol. Wedi dweud hynny, byddem bob amser yn annog y canlynol:
 - **They have a good pattern of sleep**
 - **Take regular mealtimes**
- Meddwl pryd mae'n briodol ichi gefnogi eich plentyn a phryd i beidio â gwneud hynny.
- Rydym hefyd yn ceisio meithrin cydnerthedd yn ein pobl ifanc i'w helpu i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol felly, os ydynt yn cael trafferth ac rydych yn meddwl y gallwch helpu, ceisiwch eu tywys i'w hatebion eu hunain yn hytrach na chwblhau'r dasg iddynt.

5

Bydd athrawon ac arweinwyr ysgolion yn monitro bod y gwaith sy'n cael ei osod yn cael ei gwblhau i'r safon ofynnol ac ar amser. Weithiau gall staff gymryd mwy o amser i farcio/asesu darn o waith o gymharu â'r amser arferol. Fodd bynnag, os bydd ganddynt bryderon, byddant yn trafod y rheiny gyda'ch mab/merch yn y ffordd arferol a byddant yn cysylltu â chi dim ond os ydynt yn dechrau cael pryderon.

6

Yn yr un modd, gofynnwn ichi wneud yr un peth fel rhiant. Rhowch bob cyfle i'ch plentyn gwblhau ei waith a chysylltwch â'r ysgol trwy'r dulliau arferol dim ond os oes gennych unrhyw bryderon.

Teuluoedd sydd wedi cael benthg offer digidol

Ar ddechrau'r flwyddyn hon, cafodd oddeutu 1600 o ddyfeisiau eu rhoi i deuluoedd er mwyn eu galluogi i ddysgu gartref tra bod ein hysgolion ar gau. Gan fod dysgwyr bellach wedi dychwelyd i addysg amser llawn, mae defnydd o'r dyfeisiau gartref wedi lleihau'n sylweddol.

Fel rhan o'r 'normal newydd' hwn rydym yn gweld swigod neu grwpiau blwyddyn o ddisgyblion yn hunanynysu ac mae angen offer TG ar lawer o'r disgyblion hyn bellach, ac mae angen i ni ateb y galw hwn.

Mae rhai ysgolion eisoes wedi rheoli'r broses o ddsbarthu a chasglu cit IT, fodd bynnag, er mwyn cynnig hyblygrwydd, rydym yn gofyn i bob dyfais gael ei dychwelyd i'r ysgol (os nad ydynt eisoes wedi'u dychwelyd) rywbryd yn y flwyddyn newydd, yn dibynnu ar y sefyllfa ar y pryd. Fe'ch cynghorir ymhellach maes o law. Bydd y dyfeisiau hyn yn cael eu gwirio, yna'n cael eu rheoli yn ôl disgrisiwn yr ysgol, gan ganiatáu i Brifathrawon drefnu benthyciadau tymor byr i ddisgyblion yn ôl y gofyn, os oes angen pellach i hunan-ynysu. Bydd yn ofynnol i rieni/Gwarcheidwaid gwblhau'r gwaith papur angenrheidiol i sicrhau bod yswiriant sirol yn cwmpasu'r ddyfais.

Bydd angen dychwelyd pob dyfais erbyn diwedd tymor yr haf i gyfrif stoc. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu hefyd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol ac os felly, yn addas at y diben.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth yn y llythyr hwn yn ddefnyddiol ichi, mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd yn y ffordd newydd hon o ddysgu a hoffwn ddiolch ichi unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir,



Gareth Morgans

Y Cyfarwyddwr
Yr Adran Addysg a Phlant

Dogfennau Cyfeirio:

1. <https://www.educationnext.org/ideal-blended-learning-combination-instructional-computer-time/>, cyrchwyd 12.11.20

Rhagor o ddeunydd darllen am y gwahanol fathau o ddysgu cyfunol: <https://edtechnology.co.uk/latest-news/ultimate-guide-to-blended-learning/>, cyrchwyd 12.11.20